Cyngor Tref Llandeilo Fawr

Llandeilo Fawr Town Council

Cofnodion o Bwyllgor Cyllid Cyngor Tref Llandeilo a gynhaliwyd ddydd Mercher 9fed Ebrill 2008 yn Neuadd y Sir, Llandeilo am 8.00 pm

Presennol: Cyng Ieuan Gwyn, Dirprwy Faer Cyng Edward Thomas, Cyng Colin Jenkins, Cyng Dawn Wallace, Cyng Christopher Parish, Cyng Ros Bellamy, Cyng Hugh Towns
Mr Roger Phillips, Clerc y Dref, Mr Christopher Plummer, Swyddog Cyllid, Mr Des Davies, Swyddog Technegol.

Ymddiheuriadau : Y Maer Cyng Richard Wallace.

Cof 11/ Ebrill/08 Anfonebau i'w talu.

Penderfynwyd y dylid talu'r anfonebau canlynol

Konica Minolta (tâl gwasanaeth)	£	15.37
N. Wall (Gwobrau Tre-gib, Tarian ac engrafu)	£	114.35
BT (Ffôn y swyddfa)	£	70.13
Des Davies (Rhoi arian ar y ffôn)	£	20.00

Cynigiwyd gan y Cyng Hugh Towns ac eiliwyd gan y Cyng Chris Parish. Roedd pawb o blaid.

Cof 12/ Ebrill/ 08 Incwm a Dderbyniwyd Mawrth 2008

Llog cyfrif cyfredol	£	0.73
Llog cyfrif adnau	£	129.38
Arian /sieciau Hysbysebion Tân Gwyllt	£	320.00
CSC – Cronfa Prosiect Lleol – parth. Parc Penlan	£	400.00

Cof 13/ Ebrill/ 08 Balansau'r Cyfrifon

Cofnodwyd a **Derbyniwyd** yr adroddiad canlynol ar gyllid y Cyngor:

LTC CYFRIF CYFREDOL (31.3.08)	£	9,032. 11
LTC CYFRIF ADNAU (31.3.08)	£	9,259. 40
LTC CYFRIF TREULIAU'R MAER (20.3.08)	£	1,011. 86

Cof 14 / Ebrill / 08 Ffigurau'r balans cychwynnol ar gyfer diwedd y flwyddyn, Cyfrifon 2007-8

Balans a dynnwyd ymlaen (01.04.07)	£ 44,497.81
Ychwanegu Derbynebion	£ 87,891.53
Llai taliadau a gwariant sydd wedi'i ymrwymo	£ 68,518.05
Ychwanegwch siec (101019 o 2006/7 heb ei bancio)	£ 100.00

Balans a dynnwyd ymlaen 31.3.08	£ 63,971.29

Cynrychiolir yr arian cronnol hwn gan

Balans Cyfrif y Trysorydd ar 31.3.08	£ 9,032.11
Balans Busnes Dim Rhybudd	£ 9,259.40
Bond Llog Uchel	£ 50,000.00
Llai sieciau sydd heb eu cynrychioli 07/08	£ 4,320.22
Cyfanswm y Balans	£ 63,971.29

Cof 15/ Ebrill / 08 Materion Ariannol Eraill

1. Archwiliad 2007/8.
   Cynigiwyd gan y Cyng Edward Thomas ac eiliwyd gan y Cyng Chris Parish y dylid gwahodd Mr Lyn Llewellyn i gynnal Archwiliad Mewnol ar gyfer 2007/8. Roedd pawb o blaid. Dywedodd y Swyddog Cyllid bod yn rhaid cyflwyno'r cyfrifon i'r Archwilwyr Allanol erbyn Awst 8fed, 2008.

2. Rhagolwg Tair Blynedd i'r Gyllideb.
   Rhoddodd y Swyddog Cyllid fanylion o'r rhagolygon a wnaed. Ni argymhellwyd gwneud unrhyw newidiadau.
3. Dathliadau Canmlwyddiant Parc Penlan.
   Penderfynwyd y dylid gwneud argymhelliad i'r Cyngor Llawn y dylai'r Rhaglen Goffaol ar gyfer Mehefin 14eg gael ei rhoi yn rhad ac am ddim a'r Cyngor ddylai dalu am y costau argraffu. Roedd pawb o blaid. Dywedodd y Swyddog Technegol y byddai angen toiled i'r anabl ar gyfer y te parti yn y prynhawn yn y parc am gost o £65. Argymhellwyd y dylai'r Swyddog Technegol wneud y trefniadau angenrheidiol. Hefyd adroddwyd gan y Dirprwy Faer bod Cyfeillion Llandeilo o Tenovus wedi penderfynu tynnu yn ôl ei digwyddiad gyda'r nos yn y parc oherwydd diffyg amser er mwyn cydymffurfio â rheoliadau CSC.
4. Adroddiad ar daliadau'r Hysbyseb yn y Rhaglen Tân Gwyllt.
   Bellach mae nifer yr hysbysebion sydd heb eu talu yn ddau o ganlyniad i gyswllt uniongyrchol gan Gynghorwyr â'r hysbysebwyr.

Cof 16/ Ebrill / 08 Gohebiaeth sy'n ymwneud â Chyllid

Llythyr gan gwmni Yswiriant y Cyngor, Zurich yn nodi fod y polisi presennol yn cynnwys hyd at £5 miliwn mewn costau amddiffyn yn erbyn honiadau posib o Ddynladddiad Corfforaethol allai ddigwydd.

Cof 17/ Ebrill / 08 Unrhyw eitemau eraill o fusnes sydd am resymau arbennig, yn ôl penderfyniad y Cadeirydd yn haeddu sylw brys, yn unol ag adran 100B(4)(B) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972.

Cafwyd cais gan y swyddog Cyllid am allwedd i flwch postio'r Swyddfa. Caniatawyd hyn. Gofynnwyd i'r Swyddog Technegol gyflwyno hawliad am oriau ychwanegol a weithiwyd i'r Clerc.

Daeth y cyfarfod i ben am 8.55 pm.